

Castell Caerdydd

Gweithgareddau Gweision Fictoraidd

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

Disgrifiad

Bydd plant, a fydd yn gwisgo gwisgoedd o'r oes, yn cael cyfle i wneud tasgau amrywiol a fyddai wedi bod yn rhan o ddiwrnod arferol gweision Castell Caerdydd. Bydd y sesiynau yn cynnig profiad trin gwrthrychau ac yn annog chwarae rôl. Yn dilyn cyflwyniad o rôl gwas mewn tŷ Fictoraidd, bydd y dosbarth yn gwisgo gwisgoedd o'r oes ac yn cael eu rhannu yn ddau grŵp. Bydd hanner yn gwneud gweithgareddau yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ a bydd yr hanner arall yn ymweld â Chegin y Forwyn yn Nhwyr y Cloc i baratoi tân yno. Yna, bydd y grwpiau yn newid drosodd i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle. Bydd dau dywysydd mewn gwisg o'r oes yn gyfrifol am y gweithdy.

Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ yn rhan o bris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am Ardalyddion Bute, a oedd yn berchen ar Gastell Caerdydd yn ystod y cyfnod Fictoraidd
- ◆ Dysgu beth oedd yn ofynnol o was yng Nghartref Bute
- ◆ Dysgu sut i gyfarch aelod o deulu Bute ac ymarfer y cyfarchiad hwn
- ◆ Dysgu beth oedd y gweision yn gwisgo a gwisgo dillad y gweision wrth baratoi ar gyfer gweithgareddau'r gweithdy
- ◆ Dysgu am ddiwrnod arferol y gweision
- ◆ Cyflawni rhai o'r tasgau a oedd yn rhan o arferion y gweision
- ◆ Trafod y gwahaniaeth rhwng bywyd heddiw a bywyd yn oes Fictoria
- ◆ Trin amrywiaeth o arteffactau gwreiddiol a defnyddio sgiliau meddwl i ddiddwytho rhai o'r eitemau hyn

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Y Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
 - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
 - Bywydau dynion, merched a phlant arwyddocaol a dynnwyd o hanes Prydain a'r byd ehangach (er enghraifft artistiaid, peirianwyr, fforwyr, dyfeiswyr, arloeswyr, rheolwyr, saint, gwyddonwyr)
 - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Newidiadau i fywydau bob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hanes)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.